**LC1173**

| ADRODDIAD GAN Y PWYLLGOR DEDDFAU | LEGISLATION COMMITTEE REPORT |
|---|---|

## Rheoliadau Gweithdrefn Sylwadau (Plant) (Cymru) 2005

Mae’r Rheoliadau hyn yn dirymu ac yn disodli Rheoliadau Gweithdrefn Sylwadau (Plant) 1991 ("Rheoliadau 1991"). Mae’r Rheoliadau’n estyn swyddogaethau awdurdodau lleol y caniateir cyflwyno sylwadau arnyn nhw; yn cyflwyno gofyniad bod rhaid i’r awdurdodau lleol geisio datrys sylwadau yn lleol ac yn caniatáu i sylwadau gael eu hystyried ymhellach gan banel annibynnol a gaiff ei sefydlu o dan reoliadau a wneir o dan adran 26ZB o Ddeddf Plant 1989.

## Rheol Sefydlog 11.7

Mae’r pwynt canlynol wedi’i nodi i fod yn destun adroddiad o dan Reol Sefydlog 11.7.

Mae Rheoliad 9 yn nodi’r mecanwaith ar gyfer penderfynu ar sylwadau sydd i’w hystyried gan fwy nag un awdurdod. Ar sail testun Saesneg rheoliad 9(a), cesglir bod awdurdod lleol i ystyried sylwadau sy’n ymwneud â’r canlynol:

- plentyn y mae’r awdurdod yn gofalu amdano ar hyn o bryd; neu
- blentyn y mae’r awdurdod wedi gofalu amdano ond nad yw’n gofalu amdano mwyach; neu
- gyn-blentyn y bu’r awdurdod yn gofalu amdano.

Er hynny, mae’r testun Cymraeg yn awgrymu bod rhaid i awdurdod lleol ystyried sylwadau sy’n ymwneud â phlentyn y mae’r awdurdod yn gofalu amdano neu gyn-blentyn y bu’r awdurdod yn gofalu amdano; dydy’r geiriad ddim yn awgrymu bod awdurdod lleol i ystyried sylwadau sy’n ymwneud â phlentyn nad yw’n blentyn sy’n derbyn gofal mwyach. [Rheol Sefydlog 11.7(vi)].

Gall y gwahaniaeth yma gael ei gywiro drwy gyfrwng Memorandwm Cywiriadau.

## Sylwadau

Mae mân bwyntiau fformadu y byddai’n addas eu cywiro wrth gyhoeddi’r Rheoliadau wedi’u mynegi i’r cyfreithiwr a’u drafftiodd.

## Glyn Davies AC

Cadeirydd y Pwyllgor Deddfau

## 22 Tachwedd 2005